OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 661 (Cy. 180)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mehefin 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Mehefin 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Gorffennaf 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 43(c) a 57(1)(**1**) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Gorffennaf 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio**

**2.** Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015(**3**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliad 3.

**3.** Yn rheoliad 6(d) (yr wybodaeth sydd i'w rhoi gyda hysbysiadau a chyfarwyddydau) yn lle'r geiriau "rheoliad 9" rhodder "rheoliad 8".

*Kirsty Williams*
Ysgifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

20 Mehefin 2016

(**1**) Mae adran 57(1) yn darparu'r diffiniadau o "rhagnodedig", "a ragnodir" a "rheoliadau".
(**2**) 2015 dccc 1.
(**3**) O.S. 2015/1485 (Cy. 164).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Hysbysiadau a Chyfarwyddydau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliad 3 yn cywiro gwall teipograffyddol yn rheoliad 6(d) o Reoliadau 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.